# Polisi Golygyddol *Gwerddon*

Mae *Gwerddon* yn gyfnodolyn ar-lein sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd ar draws amrediad eang o ddisgyblaethau. Cymraeg yw iaith yr erthyglau a gyhoeddir yn *Gwerddon*. Ceir rhifynnau arferol, sy'n rhyng-ddisgyblaethol, a rhifynnau arbennig, sy'n canolbwyntio ar un pwnc neu faes penodol.

## Rhifynnau Arferol

Cyhoeddir o leiaf dau rifyn arferol y flwyddyn ar y wefan. Cyhoeddir tair neu bedair erthygl ym mhob rhifyn. Bydd erthyglau yn cael eu cyhoeddi yn dilyn proses arfarnu annibynnol ddwbl-ddall. Fel rheol, ni fydd *Gwerddon* yn cyhoeddi erthyglau sydd wedi ymddangos eisoes mewn cyfnodolyn arall, gydag ambell eithriad yn achos erthyglau a ymddangosodd yn wreiddiol mewn ieithoedd eraill, pan fydd y Golygydd yn barnu bod hynny'n briodol.

## Rhifynnau Arbennig

Yn ogystal â'r rhifynnau arferol a gyhoeddir o leiaf ddwywaith y flwyddyn, bydd rhifynnau arbennig o *Gwerddon* yn ymddangos yn achlysurol. Dylid anfon cynigion i gyhoeddi rhifyn arbennig at y Golygydd gan nodi'r canlynol:

- Amlinelliad o thema'r rhifyn (tua 200 gair).
- Enwau'r cyfranwyr tebygol / posibl.
- Teitlau'r erthyglau ac amlinelliad o'u cynnwys (tua 200 gair yr erthygl). Tair neu bedair erthygl a gyhoeddir ym mhob rhifyn o *Gwerddon*.

- A fydd y rhifyn yn cynnwys rhagair ai peidio (croesewir rhagair o hyd at 750 gair yn cyflwyno thema'r rhifyn).
- Amserlen paratoi’r erthyglau.
- Statws yr erthyglau – a ydynt wedi eu cyhoeddi eisoes gan gyhoeddwr arall, a ydynt wedi eu harfarnu, ac iaith y cyhoeddiad blaenorol. Cyfrifoldeb yr awdur fydd clirio materion hawlfraint, gan gynnwys sicrhau bod modd cyhoeddi’r erthyglau dan drwydded Creative Commons BY 4.0.

Bydd y Golygydd yn penodi cydlynydd gwadd ar gyfer pob rhifyn arbennig, i gydweithio â’r Golygydd a’r Cynorthwyydd Golygyddol er mwyn sicrhau bod yr erthyglau’n cael eu cyflwyno a’u bod yn cydymffurfio â chanllawiau golygyddol *Gwerddon.* Nid oes dim i rwystro'r rhifyn rhag cynnwys erthygl o eiddo'r cydlynydd gwadd.

Caiff erthyglau eu harfarnu yn unol â chanllawiau *Gwerddon* a bydd penderfyniad Golygydd *Gwerddon* parthed y cynnwys a’r amserlen gyhoeddi yn derfynol.